# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol

# yng Ngharchar Abertawe EF

## Ar gyfer blwyddyn adrodd
## 1 Mehefin 2020 – 31 Mai 2021

**Cyhoeddwyd Awst 2022**

# Cynnwys


| **Adrannau rhagarweiniol 1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol | 3 |
| 2. | Disgrifiad o’r sefydliad | 4 |
| 3. | Crynodeb gweithredol | 5 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 8 |
| 5. | Triniaeth deg a dyngarol | 11 |
| 6. | Iechyd a lles | 17 |
| 7. | Cynnydd ac ailsefydlu | 20 |

**Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol**

| | | |
|---|---|---|
| | Cefnogaeth y Brdd | 22 |
| | Ceisiadau i'r BMA | 23 |


**Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol ar www.imb.org.uk**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau sy'n cadw pobl yn gaeth, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Adeiladwyd Carchar Abertawe EF ym 1861 ar gyfer 219 o garcharorion ac nid yw strwythur y bloc preswyl wedi newid, er bod gwaith moderneiddio ac uwchraddio wedi digwydd. Agorwyd adain newydd, adain G, ym mis Medi 2015, gan ychwanegu 60 lle arall. Cyn y pandemig Covid, roedd poblogaeth carchardai a oedd yn cynyddu'n barhaus yn golygu bod capasiti gweithredol Abertawe wedi'i osod ar 475. Mae'r rhan fwyaf o gelloedd yn lletya dau garcharor, fodd bynnag mae ychydig o gelloedd gyda thri, ynghyd â nifer fach o gelloedd sengl. Yn ystod y pandemig Covid, gostyngwyd poblogaeth y carchardai yn sylweddol i roi mwy o gynhwysedd ungell a chaniatáu hyblygrwydd yn y ffordd y gellid rheoli achosion lle’r oedd amheuaeth neu achosion gwirioneddol o Covid yn briodol.

Ar hyn o bryd mae rhaglen helaeth o adnewyddu celloedd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu teleffoni yn y celloedd, ynghyd â mesurau diogelwch ychwanegol.

# 3. Crynodeb gweithredol

## 3.1 Cefndir i'r adroddiad

Cafodd yr achosion o Covid-19 effaith sylweddol ar allu'r Bwrdd i gasglu gwybodaeth a thrafod cynnwys yr adroddiad blynyddol hwn. Yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn adrodd, dim ond dau aelod gweithredol o'r Bwrdd oedd yn gallu ymweld â'r carchar. Felly ceisiodd y Bwrdd ymdrin â chymaint o dir ag y gallai o dan yr amgylchiadau anodd hyn, ond yn anochel mae llai o fanylion a thystiolaeth ategol nag arfer. Mae Gweinidogion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hyn. Roedd y Bwrdd yn cydnabod yr ymdrech gan reolwyr a staff Carchar Abertawe EF i amddiffyn y carcharorion yn eu gofal rhag haint gan Covid-19 ac i ddarparu system ddyngarol a theg yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ers adroddiad siomedig Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) yn 2017, mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r ffordd y mae Carchar Abertawe EF wedi'i reoli a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i garcharorion. Mae Llywodraethwyr olynol wedi ceisio ystyried argymhellion HMIP a chafwyd cryn lwyddiant wrth godi safonau, nid yn unig yn amgylcheddol ond hefyd yn y berthynas rhwng staff a charcharorion a'r cyfleoedd a'r gwasanaethau sydd ar gael i garcharorion.

Mae parch at unigolion yn hollbwysig. Mae'r berthynas rhwng staff a charcharorion yn ganolog i les y carchar. Mae pob aelod o staff yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal amgylchedd sefydlog ac, yn anad dim, diogel. Nod y carchar, trwy'r rhaglenni a'r gweithgareddau amrywiol a chadarnhaol sydd ar gael, yw galluogi carcharorion i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol a thrwy hynny leihau eu risg o aildroseddu a chynorthwyo gydag ailsefydlu. Cyflawnir hyn trwy bartneriaethau ag ystod eang o sefydliadau statudol, preifat a gwirfoddol.

## 3.2 Prif ddyfarniadau

### Pa mor ddiogel yw'r carchar?

Barn y Bwrdd yw bod Carchar Abertawe EF yn garchar diogel. Roedd trais yn parhau i fod ar lefel isel, ac mae'r Bwrdd yn credu bod hyn yn adlewyrchu'r perthnasoedd hanesyddol dda yr oedd staff wedi gallu eu meithrin gyda charcharorion. Dangoswyd hyn yn glir yn ystod y pandemig, pan oedd carcharorion wedi cael eu cloi mewn celloedd am lawer mwy o amser nag sy'n arferol.

### Pa mor deg a dyngarol y mae carcharorion yn cael eu trin?

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod y rhan fwyaf o garcharorion, yn gyffredinol, yn cael eu trin yn deg ac yn ddyngarol. Roedd y drefn gyfyngedig, a roddwyd ar waith yn ystod Covid-19, yn codi pryderon, ac felly hefyd atal trefniadau ymweld – er bod y trefniadau galwadau fideo cymdeithasol newydd o fudd mawr ac wedi bod yn boblogaidd gyda charcharorion a'u teuluoedd. Y gobaith yw y bydd y rhain yn parhau yn y dyfodol.

Roedd llywodraethwyr y carchar yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda chynrychiolwyr y carcharorion lle trafodwyd pob agwedd ar fywyd y carchar, y

pandemig Covid a chyfundrefn gyffredinol y carchar. Yn gyffredinol, roedd morâl ymhlith carcharorion yn dda.

Roedd y Bwrdd yn bryderus ynghylch faint o amser yr oedd carcharorion ar remánd ac yn aros am ymddangosiadau llys.

**Pa mor dda mae anghenion iechyd a lles carcharorion yn cael eu diwallu?**

Roedd rhywfaint o welliant o ran mynediad carcharorion at gymorth iechyd meddwl, gyda chymorth grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd darpariaeth iechyd meddwl yn parhau i achosi pryder i'r Bwrdd. Yn ystod pandemig Covid-19, roedd gwasanaethau a oedd yn cefnogi iechyd a lles carcharorion yn gyfyngedig, ar adeg pan oedd eu hangen amdano yn uchel iawn. Roedd pryder ynghylch lefel y ddarpariaeth ddeintyddol.

**Pa mor dda yw cynnydd carcharorion tuag at ailsefydlu llwyddiannus?**

Yn anffodus, cafodd y datblygiadau a wnaed mewn perthynas â gweithgareddau ailsefydlu a hyfforddi, megis y ganolfan alwadau a'r gweithdy barista, eu hatal yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, parhaodd gweithgareddau eraill megis y gweithdy gwnïo, gwasanaethau glanhau a hyfforddiant aml-sgil. Parhaodd y carchar i gefnogi carcharorion gyda'u hailsefydlu. Fodd bynnag, mae'r adran addysg wedi'i chwtogi'n ddifrifol, er bod carcharorion wedi cael pecynnau addysg a llyfrau llyfrgell i'w defnyddio ar yr esgyll. Parhaodd yr adran addysg i fod yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer carcharorion newydd.

### 3.3 Prif feysydd i'w datblygu

***I LYWODRAETH CYMRU***

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gwelliannau o ran carcharorion yn gallu cael llety ar ôl eu rhyddhau ac yn croesawu menter Llywodraeth Cymru i gartrefu pawb sy'n cysgu ar y stryd yn ystod pandemig Covid-19. Byddem yn gwneud ple bod y cynllun hwn yn cael ei barhau ar gyfer carcharorion sy'n gadael y ddalfa heb lety yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn parhau i bryderu ynghylch y gwasanaeth iechyd meddwl a gynigir i garcharorion o fewn Carchar Abertawe EF. Byddai'r Bwrdd yn gofyn i Lywodraeth Cymru godi'r mater hwn gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

***I'R GWASANAETH CARCHAR***

Mae'r Bwrdd wedi bod yn bryderus ynghylch y nifer o weithiau y mae carcharorion o'r 'tu hwnt i'r ardal' yn cael eu derbyn i Garchar Abertawe EF, boed hynny o gael eu trosglwyddo o garchardai eraill yng Nghymru neu o garchardai yn Lloegr. Rydym yn llwyr werthfawrogi bod y Gwasanaeth Carchardai yn aml dan bwysau i letya

carcharorion ond byddem yn gofyn am ystyried lleihau nifer y carcharorion o’r tu hwnt i’r ardal wrth wneud penderfyniadau lleoli.

Mae’r Bwrdd yn gynyddol bryderus ynghylch yr effaith y bydd y drefn gyfyngedig yn ei chael ar allu’r carchar i ddarparu amgylchedd diogel, dyngarol a chadarnhaol sy’n annog carcharorion i symud ymlaen i ailsefydlu. Mae hyn er gwaethaf yr holl ymdrechion a wneir gan staff i gefnogi'r carcharorion yn eu gofal. Mae’r Bwrdd yn rhannu pryderon Byrddau Cymreig eraill y bydd parhau â chyfyngiadau cyfundrefnol yn yr hirdymor yn cael effaith andwyol bellach ar les y carcharorion.

### *I'R LLYWODRAETHWR*

Rydym yn cymeradwyo’r sefydliad yn ei ymdrechion i gynnal sesiynau gweithwyr allweddol yn ystod y drefn gyfyngedig ond byddem yn gofyn am ystyried a oedd trawsleoli gweithwyr allweddol yn effeithio ar yr achosion o hunan-niwed (gweler paragraff 5.3.2).

Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr ymdrechion y mae'r sefydliad wedi'u gwneud i gynyddu ei ddealltwriaeth o anghenion carcharorion o fewn y grwpiau nodweddion gwarchodedig.

Dylid parhau i annog gweithrediad cynnar camerâu a wisgir ar y corff (BWCau) (gweler paragraffau 4.4.2 a 4.4.3).

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

Mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad HMIP 2017. Cyflwynwyd tîm diogelu ym mis Ionawr 2020. Mae'r dirprwy lywodraethwr sy'n arwain y tîm hefyd yn eistedd ar Fwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg.

### 4.1 Derbyn a sefydlu

4.1.1 Yn flaenorol, nid oedd carcharorion a oedd yn cyrraedd yn hwyr yn cael y cyfle i siarad ag Insiders (sy'n garcharorion y gellir ymddiried ynddynt sy'n cynnig cymorth gan gymheiriaid). Maent bellach yn cael gwybod am y rôl, er na allant siarad â nhw.

4.1.2 Mae gwrandawyr ar gael yn yr adain sefydlu ac mae pryderon a godwyd yn ystod y broses dderbyn yn cael eu trosglwyddo ar unwaith i staff yr adain sefydlu.

4.1. Roedd newydd-ddyfodiaid yn broblem yn dilyn cyfyngiadau symud Covid gyda'r angen i'w ynysu a'u profi. Roedd carcharorion a oedd yn cyrraedd yn cael eu profi a'u hynysu oddi wrth weddill poblogaeth y carchardai. Ymdopodd y carchar yn dda gydag ychydig o achosion.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa

4.2.1 Yn anffodus, bu un farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd. Hysbyswyd y Bwrdd Monitro Annibynnol ac mae'r mater yn cael ei ymchwilio gan y PPO. Rydym yn deall bod gweithdrefnau wedi'u rhoi ar waith neu wedi'u hatgyfnerthu yn dilyn y digwyddiad.

4.2.2 Mae data hunan-niwed yn dangos gostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau dros y cyfnod adrodd. Mae pob digwyddiad difrifol yn cael ei gofnodi a'i ymchwilio'n drylwyr. Mae gweithdrefnau wedi'u rhoi ar waith i fireinio'r broses o gasglu data er mwyn ymchwilio'n llawnach i'r rhesymau dros y digwyddiadau hyn.

4.2.3 Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod 21% o ddigwyddiadau hunan-niweidio ym mis Tachwedd 2020 yn ymwneud â'r rhai oedd yn y carchar am y tro cyntaf. Nid oes patrwm canfyddadwy o ran rhesymau dros hunan-niweidio. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod hunan-niweidio yn aml yn digwydd yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y ddalfa. Roedd nifer o garcharorion a oedd wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiadau hunan-niweidio o'r blaen yn y data. Roedd y carcharorion a oedd yn ymwneud fwyaf ag achosion o hunan-niwed yn eu cyfnod sefydlu sydd wedi'i ymestyn yn ystod Covid. Mae gwaith papur dyddiau cynnar bellach yn cael ei gwblhau, a ddylai helpu'r carchar i fod yn fwy ymwybodol o unrhyw achosion o hunan-niwed a ddigwyddodd cyn i'r carcharor fynd i mewn i'r carchar, drwy ystyried unrhyw hanes o hunan-niwed blaenorol.

4.2.4 Gostyngodd nifer yr achosion o hunan-niwed yn sylweddol yn 2020 i 228 o ddigwyddiadau o'i gymharu â 428 o ddigwyddiadau yn 2019 ond roedd poblogaeth gyffredinol y carchardai yn sylweddol is. Gostyngodd y niferoedd ymhellach ym mis Tachwedd 2020, a oedd, o'u dadansoddi, i'w gweld yn adlewyrchu bod poblogaeth y

carchardai yn is na’r cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol. Yn yr adain sefydlu y gwelwyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau. Fodd bynnag, bu anghysondeb ag ansawdd adroddiadau'r system adrodd am ddigwyddiadau (IRS), gyda rhai yn fwy manwl nag eraill. Mae hyn yn derbyn sylw. Heblaw am y boblogaeth is, nid oes darlun clir pam fod y gostyngiad mewn hunan-niwed wedi digwydd gan ei fod yn ymddangos i fod yn groes i’r hyn a ddisgwylid gyda chyfnodau mor hir o gaethiwed. Parhaodd y niferoedd isel i fis Ebrill 2021.

4.2.5 Darparwyd pecynnau tynnu sylw i geisio lleddfu straen a thensiwn.

4.2.6 Mynychodd aelodau o'r tîm argyfwng, gan gynnwys personél o iechyd meddwl, bob bwrdd derbyn lle’r adolygwyd pob achos. Croesawyd cyflwyno tîm gofal iechyd meddwl sylfaenol yn hwyr yn 2020 i ddelio ag argyfwng ac ymyrraeth.

4.2.7 Parhaodd cwnsela i fod yn adnodd hynod werthfawr a pharhaodd y cwnselydd i fod â llwyth achosion trwm iawn.

4.2.8 Dyrannwyd gweithwyr allweddol i'r rhai a oedd yn destun dogfennau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) a oedd yn cynnal gwiriadau rheolaidd. Bellach mae gwiriad pellach ar y gweill sy'n cynnwys aelod o'r tîm gwarchodaeth mwy diogel. Gostyngodd nifer yr ACCTau a agorwyd yn sylweddol ym mis Mai 2020, gydag esgyll D ac F yn gweld un digwyddiad yr un yn unig. Erbyn mis Gorffennaf, roedd y ffigyrau ar gynnydd, a chredir ei fod wedi cyd-daro ag ail-agor y carchar. Er gwaethaf y cynnydd, roedd y niferoedd yn dal yn isel.

4.2.9 Er y gwelwyd cynnydd pellach mewn ACCTau ym mis Mawrth 2021, roedd yn dal yn is na ffigurau’r llynedd, er bod y boblogaeth yn isel iawn o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd nifer yr ACCTau fel cyfran o boblogaeth y carchardai yn uwch na’r llynedd, sef 13.2% o gymharu â 10.4%.

4.2.10 Mae recriwtio Gwrandawyr wedi bod yn broblemus. Nid oedd y sefydleion newydd yn deall y rôl yn llawn a chyflwynwyd proses sefydlu ddeuddydd newydd ym mis Tachwedd 2020 i ymdrin â’r mater hwn.

4.2.11 Mae’r ystafell Gwrandawyr ar gael yn yr adain sefydlu a hwylusir galwadau ffôn i’r Samariaid i sicrhau bod y Gwrandawyr eu hunain yn cael cymorth.

4.2.12 Cynyddodd nifer y Gwrandawyr ar ddechrau 2020. Mae'r data'n dangos cynnydd graddol yn ystod mis Mawrth, Ebrill a Mai. Wrth i'r cyfyngiadau symud gychwyn cynyddodd nifer y galwadau i Wrandawyr. Darparwyd mwy o gymorth yn ystod y cyfnod sefydlu ym mis Awst 2020 wrth i nifer y galwadau a wnaed gan ddynion sy’n cyflawni eu dedfryd carchar cyntaf gynyddu. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y galwadau allan tua diwedd Ebrill 2021 ond cynyddodd y galwadau i’r Samariaid, sy’n awgrymu efallai y bydd angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o rôl Gwrandawyr yn ystod y broses sefydlu.

## 4.3 Trais a lleihau trais, hunan-ynysu

4.3.1 Roedd data’n dangos gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymosodiadau gan garcharorion ar garcharorion ar ddechrau’r cyfnod adrodd, ac er i’r ffigur hwnnw gynyddu ym mis Mehefin 2020, roedd y niferoedd yn dal yn gymharol isel. Bu cynnydd sylweddol eto ym mis Hydref ond roedd hyn yn bennaf oherwydd un unigolyn. Anogwyd staff i gyflwyno cynlluniau her, cymorth ac ymyrraeth (CSIPau) ar

gyfer digwyddiadau ac roedd aelodau o'r tîm gwarchodaeth mwy diogel ar gael i staff pe bai angen cymorth arnynt i wneud atgyfeiriad. Cynyddodd digwyddiadau eto ym mis Rhagfyr, gyda chynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar staff.

4.3.2 Dangosodd data’r tîm lleihau trais, er bod canran y digwyddiadau fesul pen o’r boblogaeth yn uwch na’r blynyddoedd blaenorol, roedd yn ymddangos bod y cyflawnwyr yn gyfrifol am ddigwyddiadau lluosog yn hytrach na blynyddoedd blaenorol lle’r oedd y cyflawnwyr yn bennaf gyfrifol am ddigwyddiadau unigol. Felly mae'r data'n awgrymu nad yw'r trais yn fwy cyffredin. Yn 2020, bu 26 o ymosodiadau ar staff ond wyth dyn achosodd 60% o'r digwyddiadau. Mae poeri wedi cynyddu ac mae'n cyfrif am 16 o'r ymosodiadau ar staff.

4.3.3 Agorwyd 387 o CSIPau yn 2020 a gwnaed 124 o atgyfeiriadau. Ar ddechrau’r flwyddyn adrodd, roedd nifer yr atgyfeiriadau’n isel, ond mae wedi cynyddu yn dilyn ymyrraeth a chefnogaeth gan y tîm carchar mwy diogel.

## 4.4 Defnydd o rym

4.4.1 Yn gyffredinol, adolygir pob digwyddiad yn wythnosol, er ar adegau o amledd dwys dim ond detholiad sy'n cael eu hadolygu. Mae hyn wedi arwain at gydnabod perfformiad swyddogion, hyfforddiant staff neu ymchwiliad i'r digwyddiad. Bu gostyngiad yn nifer yr achosion o ddefnyddio grym (UOF) yn ystod y cyfnod adrodd.

4.4.2 Bu gostyngiad yn y defnydd o gamerau a wisgir ar y corff (BWC) gan staff. Mae'r rhain yn cael eu darparu ond nid ydynt wedi'u rhoi ar waith bob amser wrth ymdrin â charcharorion neu ddigwyddiadau. Mae'r BWCau yn weladwy ac wedi treulio. Er mwyn gwella'r sefyllfa, mae uwch staff wedi bod yn gorfodi'r defnydd o gamerâu yn weithredol a phan fo digwyddiad mae swyddogion yn cael eu hannog i droi eu camerâu ymlaen. Mae’r carchar wedi hyrwyddo’r defnydd o BWC yn weithredol ac mae hyfforddiant a llenyddiaeth wedi’u cynhyrchu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff, sydd wedi arwain at welliant.

4.4.3 Mae nifer y staff hefyd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant gloywi UOF gydag wyth aelod o staff wedi cael hyfforddiant a staff pellach yn aros i ddechrau hyfforddiant tua diwedd y cyfnod adrodd .

4.4.4 Cytunwyd ar y defnydd o PAVA. Yn ystod y cyfnod adrodd nid oes defnydd ohono wedi bod eto.

## 4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

4.5.1 Cyflwynodd y carchar sganiwr corff ar 20 Hydref 2020 i gynorthwyo yn y frwydr i reoli smyglo cyffuriau i'r carchar. Mae hyn wedi nodi llawer o'r rhai sydd wedi dod â sylweddau anghyfreithlon i mewn i'r carchar ac wedi gweld nifer y digwyddiadau a nodwyd yn wreiddiol yn cynyddu. Mae staff wedi cael eu hyfforddi i ddehongli’r delweddau.

4.5.2 Gostyngodd argaeledd cyffuriau yn y carchar yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai fod wedi digwydd oherwydd effaith y cyfyngiadau symud ar draws y carchar, gan gynnwys atal ymweliadau cymdeithasol sy’n cyfyngu ar y cyfleoedd i gyffuriau ddod i mewn i’r carchar.

4.5.3 Ar rai adegau, roedd y carchar yn profi problemau difrifol yn ymwneud ag argaeledd cyffuriau, yn enwedig ‘cyffuriau anterth cyfreithlon’ fel y’u gelwir, a Spice. Fodd bynnag, roedd cyfraddau canfod yn gwella, gyda mwy o ddefnydd o gŵn cyffuriau a staff yn wyliadwrus. Roedd y Llywodraethwr, ar adegau penodol, yn defnyddio swyddogion y tu allan i waliau'r carchar i atal eitemau rhag cael eu taflu dros y waliau.

# 5. Triniaeth deg a dyngarol

## 5.1 Llety, dillad, bwyd

5.1.1 Mae llety carcharorion mewn cymysgedd o adeiladau gyda rhai esgyll yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r rhan fwyaf o'r celloedd yn lletya dau (6 troedfedd x 9 troedfedd) gyda llenni preifatrwydd o amgylch ardal y toiledau. Mae treulio 23 awr yn y gofod hwn yn ystod y gyfundrefn gyfyngedig Covid-19 wedi cyflwyno heriau i ddynion, gydag un carcharor yn ei ddisgrifio fel un sy'n 'sialens feddyliol'. Mewn arolwg BMA a gynhaliwyd ym mis Mawrth/Ebrill 2021 roedd 65% o'r ymatebwyr (allan o 66 o ymatebion) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad 'Rwy'n poeni bod fy iechyd meddwl yn dioddef'.

5.1.2 Bu rhaglen barhaus i adnewyddu celloedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er i hyn arafu i ddechrau yn ystod cam cyntaf y drefn gyfyngedig, gyda dim ond gwaith cynnal a chadw hanfodol yn cael ei wneud gan y contractwr Amey. Mae'r gwaith yn cynnwys tynnu bync metel a gosod rhai pren yn eu lle, darparu mwy o silffoedd a glanweithdra wedi'i uwchraddio. Gwelir bod hyn yn welliant sylweddol ar gyfleusterau presennol ac mae adborth yng nghyfarfodydd cynrychiolwyr yr adain wedi bod yn gadarnhaol. Parhaodd y gwaith i osod teleffon yn y gell yn ystod rhan olaf y flwyddyn gyda'r cysylltiad wedi'i ohirio a'i ddisgwyl tua diwedd 2021.

5.1.3 Mae mynediad gwael i bobl anabl yn parhau, gyda'r rhan fwyaf o ardaloedd yn gosod cyfyngiadau sylweddol ar ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, er enghraifft. Mae un adain yn hygyrch gyda rampiau ac mae ganddi lifft, ond yn gyffredinol byddai'r carchar yn ceisio adleoli defnyddiwr cadair olwyn i sefydliad mwy addas. Mae lifft grisiau sy'n cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) 2005 yn y dderbynfa.

5.1.4 Mae cyfleusterau cawod yn dameidiog, gyda phroblemau pwysedd dŵr ar rai esgyll a diffyg preifatrwydd ar eraill. Mae bwriad i adnewyddu cawodydd ar ddwy adain yn y dyfodol agos. Mae'r system wresogi yn hen ffasiwn gyda system llif a dychwelyd trwy bibellau sy'n golygu nad oes cyfleuster i addasu gwres mewn celloedd unigol. Gwaethygir hyn gan awyru ffenestri gwael, er unwaith eto mae rhaglen uwchraddio ar y gweill. Ar ddiwedd y flwyddyn, fodd bynnag, roedd cyflenwyr yn ei chael yn anodd cael gafael ar rai deunyddiau adeiladu ac mae'n rhaid cyflwyno cais newydd yn flynyddol am waith adnewyddu parhaus.

5.1.5 Yn ystod y cyfnod adrodd, mae glanhau gwell wedi'i wneud ledled y carchar i frwydro yn erbyn lledaeniad haint.

5.1.6 Daethpwyd â'r holl olchi dillad yn fewnol yn ystod y flwyddyn (fe'i hanfonwyd yn flaenorol i CEF Leyhill) gyda pheiriannau wedi'u huwchraddio/eu cyfnewid i hwyluso'r newid hwn.

5.1.7 Gostyngwyd nifer y carcharorion a oedd yn gweithio yn y gegin yn ystod y cyfnod hwn i 10 yn dilyn asesiadau risg Covid-19. Cyflwynwyd dyletswyddau glanhau ychwanegol ac roedd lle gwag llawn amser yn y gegin drwyddi draw, er bod staff asiantaeth wedi trefnu i gyflenwi dros dro. Cyflawnwyd gwaith ychwanegol yn paratoi brecwast a phecynnau cysur gan nifer fach o ddynion mewn gweithdy. Y gyllideb bwyd oedd £2.24 y dyn y dydd heb unrhyw gyllideb ychwanegol ar gyfer dietau arbennig e.e. diabetig neu lactos isel, er bod y rhain yn parhau i gael eu darparu ar eu cyfer, ac roedd cyswllt â gofal iechyd ynghylch dietau arbennig yn

ymddangos yn dda. Mae rhwng 75–80% o fwyd yn fwyd cartref e.e. brechdanau, seigiau sawrus, pasteiod, pwdinau. Mae llysiau ffres wedi'u disodli gan rai wedi'u rhewi oherwydd ansawdd gwael y cyflenwyr.

5.1.8 Er bod arsylwi paratoi prydau, samplu ac ati wedi'i gyfyngu'n ddifrifol yn ystod y cyfnod hwn, roedd gan y BMA fynediad at y bwydlenni pedair wythnos (a oedd yn dangos amrywiaeth), trafodaethau ffôn gyda staff, adborth o gyfarfodydd cynrychiolwyr carcharorion a'i arolwg ei hun. Gwelodd yr olaf ledaeniad cyfartal rhwng carcharorion yn cytuno bod ‘ansawdd y bwyd yn y carchar yn dda’ (52%) i’r rhai oedd yn anghytuno (48%) gyda chyfradd dychwelyd arolwg o 22% yn gyffredinol.

5.1.9 Dangosodd staff y gegin ymdrechion cadarnhaol iawn i ymgysylltu â charcharorion a chynhaliwyd arolygon a defnyddio'r sianel wybodaeth deledu yn y celloedd trwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo prydau â thema, canlyniadau arolygon a newidiadau i fwydlenni (yn ogystal â sicrhau bod gwybodaeth bapur ar gael). Un o'r prif gwynion gan garcharorion fu cael gwared ar frecwast poeth - mae pecynnau brecwast yn cael eu dosbarthu'r diwrnod blaenorol. Mae brunch ar ddydd Sadwrn wedi mynd peth o'r ffordd i ymateb i'r adborth hwn.

## 5.2 Gwahanu

5.2.1. Mae'r uned gofal a gwahanu (CSU) wedi'i lleoli ochr yn ochr ag adain C (30 o garcharorion) ac mae'n cynnwys pum cell ac un gell llety arbennig, a ddefnyddir yn anaml ond yn aml ar gyfer chwiliadau neu sefyllfaoedd dad-ddwysáu. Rhennir cawodydd ag adain C a rhennir man ymarfer gydag adain G. Nid oes unrhyw staff penodol wedi'u nodi ar gyfer y CSU a chaiff dyletswyddau eu cyflawni gan staff adain C. Fodd bynnag, mae gan yr adain gymhareb staffio uwch o gymharu ag adenydd preswyl eraill gan ei bod yn delio â charcharorion mwy heriol. Roedd aelodau'r BMA yn absennol o'r carchar am gryn dipyn o'r flwyddyn adrodd felly nid oeddent yn gallu monitro amodau CSU yn bersonol na siarad â charcharorion, gan ddibynnu yn lle hynny ar adroddiadau swyddogion dros y ffôn. Roedd cofnodion cyfarfodydd grŵp monitro ac adolygu ar wahân (SMARG) yn ffynhonnell arall o wybodaeth ddefnyddiol am weithrediad yr uned a materion yn ymwneud â gofal carcharorion.

5.2.2 Roedd nifer sylweddol uwch o ddynion yn cael eu dal yn y CSU yn ystod y flwyddyn adrodd o’i gymharu â 2019/20 (183 o gymharu â 103), gyda’r cynnydd yn digwydd yn ystod hanner olaf y flwyddyn. I raddau helaeth, roedd hyn yn cyd-daro â chyflwyno'r sganiwr corff yn y dderbynfa ym mis Hydref 2020. Ar adegau roedd nifer y dynion a ddangoswyd yn bositif am sylweddau cudd yn fwy na'r celloedd oedd ar gael ac yn golygu bod yn rhaid eu cadw dan amodau gwahanu ar esgyll eraill. Roedd y prif reswm dros y cynnydd hwn i’w gadarnhau ymhellach gan y ffaith, er bod nifer y dynion a roddwyd ar gofnod wedi lleihau’n sylweddol yn ystod y cyfnod o bum mis Ionawr – Mai 2021 o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol (83/579), roedd nifer y dynion yn cael eu dal yn y CSU fwy neu lai wedi dyblu o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2020 (100/57).

5.2.3 Yr arhosiad cyfartalog yn y CSU oedd tri diwrnod, gydag un carcharor yn cael ei gadw am dros 42 diwrnod; dyn arbennig o heriol a gafodd ei symud yn y pen draw i adain breswyl. Nifer y carcharorion a ddaliwyd yn CSU gyda ACCT oedd 28 yn 2020/21 ac 20 yn 2019/20, gyda gwaith papur penderfyniad amddiffynadwy yn cael

ei gwblhau i bawb. Roedd digwyddiadau defnyddio grym yn gymaradwy: 20 yn 2019/20 a 18 yn 2020/21. Arhosodd y drefn yr un peth yn ystod cyfyngiadau Covid-19 heb unrhyw setiau teledu, roedd dynion yn cael radios yn dibynnu ar ymddygiad a phecynnau tynnu sylw fel oedd yn cael ei ddarparu i'r boblogaeth gyffredinol.

5.2.4 Bu un brotest fudr yn ystod y flwyddyn nad oedd am gyfnod hir o amser ac a oedd yn rhan o ystod o ymddygiadau heriol a gyflwynwyd gan yr unigolyn hwn sydd bellach wedi'i integreiddio'n ôl i adain breswyl.

5.2.5 Cynhaliwyd dyfarniadau ar adain C gerllaw'r CSU ac fe'u cefnogwyd gan swyddog cyswllt dyfarnu (ALO) a baratôdd yr holl waith papur a chynorthwyo'r Llywodraethwr yn ystod y dyfarniadau. Roedd diffyg o ALOau hyfforddedig, sy'n derbyn sylw ar hyn o bryd. Cafodd presenoldeb y BMA mewn dyfarniadau ac adolygiadau Trefn neu Ddisgyblaeth Dda (GOOD) ei gwtogi'n ddifrifol yn ystod y flwyddyn ac, er i rai aelodau ffonio i mewn i ddyfarniadau, nid oedd ansawdd y cysylltiad ffôn yn galluogi popeth i gael ei glywed yn glir. O ran dyfarniadau, rhoddwyd mwy o ystyriaeth i effeithiau'r drefn a oedd eisoes yn gyfyngedig iawn yn ystod y cyfnod hwn, gyda llai o gosbau'n cael eu rhoi e.e. ni roddwyd unrhyw garcharorion ar drefn sylfaenol. Ni chyfeiriwyd unrhyw ddyfarniadau at y dyfarnwr annibynnol.

5.2.6 Yn ystod monitro o bell, roedd hysbysu aelodau'r BMA am dderbyniadau CSU ac adolygiadau GOOD yn anghyson, ond yn rhannol yn adlewyrchu diffyg presenoldeb y BMA yn y carchar. Mae angen gwella hyn wrth symud ymlaen.

## 5.3 Perthynas staff-carcharor, gweithwyr allweddol

5.3.1. Mae Carchar Abertawe EF yn ffodus i gael gweithlu sefydlog iawn. Yn ystod cam un a dau o'r pandemig, ni fu unrhyw gynnydd nodedig mewn absenoldeb salwch ac roedd trosiant yn isel (saith yn cychwyn - 13.6 yn gadael)

5.3.2 Bu gostyngiad sylweddol yn rhyngweithiadau gweithwyr allweddol yn ystod y flwyddyn, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Ym mis Ionawr/Chwefror 2020 cofnodwyd 1,366 o sesiynau gweithiwr allweddol o'i gymharu â 662 ym mis Ionawr/Chwefror 2021. Roedd sesiynau gweithwyr allweddol wedi'u targedu at garcharorion mwy agored i niwed gan gynnwys y rhai ar ACCTau neu ar ôl cau; rhai dan 21 oed; y rhai ar CSIPau; gwladolion tramor; y rhai sydd â chynlluniau personol ar gyfer gwacáu mewn argyfwng (PEEPau) a chyn-filwyr. Gallai hyn olygu bod sesiynau amlach a hirach yn bosibl i'r grwpiau hyn. Roedd ansawdd y nodiadau sesiwn yn parhau i gael ei adolygu gan reolwyr y ddalfa bob dydd a'r olaf yn cael ei sicrhau gan uwch swyddog prawf yr uned rheoli troseddwyr (OMU). Roedd cyfle'r BMA i fonitro gwaith papur yn gyfyngedig iawn yn ystod y flwyddyn.

5.3.3 Er i'r BMA gynnwys y cwestiynau yn ei arolwg Mawrth/Ebrill 2021 'Mae fy ngweithiwr allweddol yn fy ngweld bob wythnos' (43% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf) a 'Mae cyfarfod â'm gweithiwr allweddol yn fy helpu' (42% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf), dylid gweld y canlyniadau yng nghyd-destun bod 60% o ymatebwyr wedi bod yn y carchar am chwe mis neu lai. Oni bai bod carcharorion yn un o'r categorïau bregus a restrir uchod, ni fyddent wedi cael gweithiwr allweddol. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, mae'n ymddangos bod ymatebion i arolwg y BMA yn gadarnhaol.

5.3.4 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y carchar - dan arweiniad y Llywodraethwr - yn cynnal dau gyfarfod wythnosol gyda chynrychiolwyr carcharorion Covid enwebedig - un ar gyfer dynion a ddedfrydwyd ac un ar gyfer dynion ar remánd - i sicrhau bod y cyfyngiadau a'r newidiadau yn cael eu cyfleu'n glir. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael i'r BMA a mynychwyd cyfarfodydd gan y Cadeirydd tua diwedd y flwyddyn. Roedd y cofnodion yn dangos bod carcharorion yn gallu mynegi pryderon yn ymwneud â Covid/y drefn gyfyngedig ac hefyd yn ymwneud â materion ar wahan i hyn, ac roedd y rhain yn cael eu dilyn mewn cyfarfodydd dilynol.

5.3.5 Er bod rhyngweithio wyneb yn wyneb â charcharorion yn gyfyngedig iawn yn ystod y cyfnod hwn – roedd y mwyafrif o aelodau’r BMA yn monitro o bell – fel y nodwyd yn flaenorol, cafwyd cyfradd ymateb o 22% i arolwg y BMA a ddosbarthwyd yn ystod Mawrth/Ebrill 2021. Pwrpas yr arolwg oedd canfod sut roedd carcharorion yn teimlo ar ôl 12 mis o gyfundrefn gyfyngedig iawn ac effaith Covid. Roedd yr adborth yn gymysg, gyda rhai lefelau boddhad siomedig â chwestiynau fel 'Mae staff yn gofyn i mi sut rydw i'n ymdopi' (54% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno) a 'Mae'r carchar yn fy nghadw'n ddiogel yn ystod yr achosion o Covid' (41% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno). Cyflawnwyd lefelau boddhad uwch i gwestiynau fel ‘Mae anghenion fy ffydd wedi’u bodloni’ (73% yn cytuno’n gryf neu’n cytuno), gyda lefelau tebyg o ymatebion cadarnhaol i gwestiynau am y drefn e.e. gwneud galwad ffôn, gwneud ymarfer corff a chael cawod bob dydd.

## 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

5.4.1 Cynhaliwyd cyfarfod cydraddoldeb bob mis ac mae wedi parhau yn ystod y flwyddyn adrodd, dan gadeiryddiaeth naill ai'r Llywodraethwr neu'r dirprwy. Rhannodd y swyddog cydraddoldeb ei amser rhwng cydraddoldeb (60%) a dyletswyddau carchar mwy diogel (40%). Mae’r BMA wedi parhau i dderbyn cofnodion y cyfarfodydd hyn, a oedd yn cynnwys llawer iawn o ganlyniadau monitro data ar gyfer grwpiau gwarchodedig gan gynnwys lefelau cymhellion, defnydd o rym, gwahanu, dyfarniadau a data, er enghraifft ar ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu (DIRFau), gwladolion tramor, carcharorion LGBTQ+ a nifer y siaradwyr Cymraeg. Cofnodwyd camau gweithredu ar ddechrau'r cofnodion ac ni ddilëwyd unrhyw gamau gweithredu nes eu bod wedi'u cwblhau ac yr adroddwyd arnynt.

5.4.2 Nid oedd cyfran y carcharorion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn amrywio llawer, sef rhwng 15% a 17% ar gyfartaledd o boblogaeth y carchardai drwy gydol y cyfnod adrodd. Fel ciplun, ym mis Mai 2021 cofnodwyd 54 o ddynion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gyda 46 allan o’r ardal – 17 o Loegr, wyth o dde-ddwyrain Cymru a 21 o wladolion tramor. I ryw raddau mae galwadau fideo cymdeithasol wedi goresgyn rhai o'r anawsterau y mae dynion o'r tu allan i'r ardal yn eu profi wrth gynnal cyswllt teuluol. Ni ddangosodd monitro Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn erbyn y categorïau yn 5.4.1 unrhyw anghymesuredd arwyddocaol. Fodd bynnag, ym mis Mehefin/Gorffennaf 2020, canfu dadansoddiad o gyflogaeth yn ôl ethnigrwydd fod canran y gweithwyr adain o gymunedau Du Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn anghymesur o isel (6%) – roedd hyn wedi gwella erbyn Hydref 2020 i 10% ac mae monitro’n parhau. Yn ogystal, o adrodd ar gyflogaeth drwy raddfa gyflog ym mis Chwefror 2021, roedd yn amlwg bod amrywiaeth ethnig iach ymhlith dynion cyflogedig. Dosbarthwyd arolwg a baratowyd gan yr adran seicoleg tua diwedd y

flwyddyn adrodd i garcharorion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn ymateb i ganfyddiad HMIP nad oeddent yn teimlo'n ddiogel – nid oedd y canlyniadau wedi'u dadansoddi erbyn diwedd y flwyddyn adrodd ond cafwyd cyfradd ymateb dda o 50%.

5.4.3 Trefnodd y swyddog cydraddoldeb rota flynyddol, a ddilynwyd i sicrhau bod fforymau'n cael eu cynnal ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. Ychydig iawn yr effeithiwyd arno gan y gyfundrefn Covid ar gyfer grwpiau ffocws/fforymau carcharorion penodol ar gyfer nodweddion gwarchodedig ac aeth y rhan fwyaf yn eu blaenau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys grŵp ffocws Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn ymateb i brotestiadau Black Lives Matter ledled y byd; fforwm i'r rhai sy'n ystyried eu hunain yn Sipsiwn, Romani neu Deithiwr; fforwm LGBTQ+; fforwm i garcharorion Mwslimaidd drafod Ramadan/Eid; grŵp ffocws gwladolion tramor a fforwm siaradwyr Cymraeg. Tra collwyd y clwb dros 50 oed oherwydd ystyriaethau diogelwch, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda chyfweliadau un-i-un yn rhoi adborth ar ystod o faterion. Roedd cofnodion y cyfarfodydd cydraddoldeb yn cofnodi'r prif ganlyniadau/adborth gan yr holl grwpiau/fforymau hyn ac yn cymryd unrhyw gamau gweithredu ymlaen.

5.4.4 I gymryd lle rhai grwpiau/fforymau ffocws wyneb yn wyneb, dosbarthwyd nifer o holiaduron hefyd, gan gynnwys un wedi'i dargedu at ddynion ag anableddau. Yn ogystal, roedd y swyddog cydraddoldeb yn mynychu grwpiau ffocws cynrychiolwyr Covid yn rheolaidd, a gynhaliwyd yn wythnosol, i rannu gwybodaeth a chodi materion yn ymwneud â chydraddoldeb. Cynhaliwyd hyfforddiant i garcharorion weithredu fel cynrychiolwyr cydraddoldeb. Arsylwyd gwyliau crefyddol fel Eid cyn belled â phosibl gyda bwydlenni â thema, gwybodaeth yn cael ei rhannu trwy'r teledu yn y gell a 'goody bags' i'r dynion a ddosbarthwyd gan yr imam, ond nid oedd yn bosibl rhannu bwyd mewn grŵp.

5.4.5 Amrywiodd nifer y gwladolion tramor yn ystod y flwyddyn ond roedd y cyfartaledd rhwng 25-30. Y swyddog cydraddoldeb oedd y prif bwynt cyswllt a bu'n cynorthwyo gwladolion tramor gyda gwaith papur. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, roedd bron i 50% o'r grŵp hwn yn ddinasyddion Albanaidd. Ni ymwelodd cynrychiolydd y Swyddfa Gartref â'r carchar am rai misoedd a dim ond ym mis Gorffennaf 2020 y dychwelodd. Nid oedd dosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) ar gael yn ystod y cyfnod hwn ond roedd mynediad i thebigword (gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd) ar gael i bob swyddog – yn arbennig fodd bynnag, y swyddog cydraddoldebau a oedd yn defnyddio thebigword yn bennaf. Mae angen annog staff derbynfa a gweithwyr allweddol i ddefnyddio'r gwasanaeth. Lle'r oedd hynny'n ymarferol, roedd dynion o'r un cenedligrwydd yn cael eu cartrefu ar yr un adain ac yn cael eu cyflogi yn yr un gweithdai i alluogi cyfathrebu a chyfleoedd ESOL anffurfiol. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, roedd pob gwladolyn tramor yn cael cynnig galwad ffôn i'w llysgenhadaeth pan gânt eu derbyn i'r ddalfa.

5.4.6 Roedd problemau'n parhau ynghylch symudiad gwladolion tramor sydd wedi cwblhau eu dedfryd ond sy'n parhau yn y ddalfa o dan bwerau'r Ddeddf Mewnfudo. Roedd arafwch o ran symud gwladolion tramor i ganolfannau symud mewnfudwyr a gwaith papur munud olaf IS91 i'w gweld. Effeithiodd Covid yn amlwg ar ganslo hediadau gan effeithio ar rai gwladolion tramor, gydag un yn profi tair hediad wedi'u canslo i Fietnam. Cwblhaodd un dinesydd tramor ei ddedfryd ym mis Rhagfyr 2020 ond mae'n parhau yn y carchar. Mae gan y Bwrdd bryderon sylweddol am gymorth y Swyddfa Gartref i'r carcharorion hyn.

5.4.7 Yn ystod y pandemig, daeth A1 yn lanfa warchodol i ddynion hŷn a’r rhai â chyflyrau iechyd sylfaenol, gyda niferoedd rhwng 12-18 ar unrhyw adeg benodol. Roedd gan y dynion hyn staff ymroddedig a'u trefn eu hunain ac roeddent wedi'u hynysu oddi wrth weddill poblogaeth y carchar.

5.4.8 Roedd nifer y DIRFau a dderbyniwyd yn sylweddol is na'r flwyddyn adrodd flaenorol, gyda nifer o fisoedd heb ddim o gwbl. Roedd cyfanswm o 18, 14 gan garcharorion a phedwar gan staff; gyda 38% gan staff a charcharorion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Trafodwyd y niferoedd isel ar lefel ranbarthol, gyda niferoedd isel tebyg yn CEF Brynbuga. Teimlwyd y gallai cynnal dau gyfarfod cynrychiolwyr Covid yr wythnos (gan alluogi codi materion) a’r drefn gyfyngedig/amser cyfyngedig allan o’r gell fod wedi effeithio ar niferoedd. Roedd mater o ganran o DIRFau yn cael eu defnyddio pan fyddai ffurflen gwyno safonol (Comp 1) wedi bod yn briodol – i’r gwrthwyneb roedd Comp 1 a oedd yn ymwneud â phryderon am nodweddion gwarchodedig yn cael eu hailgyfeirio i’r broses DIRF. Yn ystod y flwyddyn, newidiwyd y ffurflen DIRF yn genedlaethol gyda dim ond carcharorion (yn hytrach na staff) yn gallu defnyddio’r fersiwn newydd.

5.4.9 Roedd monitro o bell yn gosod cyfyngiadau difrifol ar allu’r BMA i gael adborth yn ymwneud â chydraddoldeb yn uniongyrchol gan garcharorion – yn benodol y rhai â nodweddion gwarchodedig. Roedd yn dibynnu'n bennaf ar adborth swyddogion a chofnodion cyfarfodydd cydraddoldeb, grwpiau ffocws/fforwm a grwpiau cynrychioli carcharorion. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth hon yn dangos bod y ffocws ar gydraddoldebau wedi parhau drwy gydol y cyfnod hwn.

**5.5 Eiddo**

Mae eitemau o ddillad coll, yn enwedig mewn perthynas â throsglwyddiadau o garchardai eraill, yn parhau i fod yn rhan o geisiadau’r BMA.

# 6. Iechyd a lles

## 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

6.1.1 Darperir gwasanaethau gofal iechyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

6.1.2 Yn dilyn dechrau'r drefn gyfyngedig, ymdriniwyd â'r drefn ar gyfer profi, carfanu a gofal cyffredinol carcharorion yn dda iawn, gyda chanlyniadau eithriadol o dda. Roedd yr arolwg carcharorion a gynhaliwyd ym mis Mawrth/Ebrill 2021 yn dangos bod mwyafrif llethol y boblogaeth gyffredinol yn derbyn y drefn fwy cyfyngol ac mewn gwirionedd yn dangos gwerthfawrogiad o waith y carchar yn eu hymdrechion i ddarparu amgylchedd diogel a sicr.

## 6.2 Gofal iechyd corfforol

6.2.1 Nid oes cyfleuster cleifion mewnol yng Ngharchar Abertawe. Mae dynion sydd angen triniaeth ysbyty yn mynd i ysbytai lleol. Ceir ymweliad dyddiol gan feddyg teulu.

6.2.2 Cyn y drefn gyfyngedig, roedd carcharorion yn gallu cael mynediad i apwyntiadau meddyg teulu, deintyddol ac optegydd. Roedd amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau arferol gyda'r meddyg teulu a'r deintydd o fewn normau cymunedol. Fodd bynnag, roedd diffyg gwasanaethau optegydd yn peri pryder, er bod yr effaith ar garcharorion wedi'i lliniaru gan y ddarpariaeth o sbectol ddarllen 'oddi ar y peg'.

6.2.3 Achos arall i beri pryder oedd carcharorion a oedd yn cyrraedd y carchar nad oeddent wedi derbyn eu meddyginiaeth ers sawl diwrnod tra'n cael eu cadw yn nalfa'r heddlu neu'r llys (oherwydd y broses arestio/llys). Arweiniodd hyn at broblemau carcharorion yn dioddef o symptomau diddyfnu, gan arwain at ymddygiad afreolaidd/aflonyddol. O bryder arbennig oedd carcharorion a oedd yn colli allan ar feddyginiaeth ar gyfer trin materion iechyd meddwl.

6.2.4 Parhaodd y tîm gofal iechyd i fod â llwyth gwaith uchel, gyda nifer fawr o boblogaeth y carchar ar feddyginiaeth, y tîm yn cymryd rhan mewn sgrinio gofal iechyd wrth gyrraedd, yn ymwneud â dogfennau ACCT ac yn ymateb i argyfyngau meddygol yn y carchar. Fodd bynnag, yn gyffredinol, parhaodd y tîm gofal iechyd i ddarparu gwasanaeth boddhaol.

6.2.5 Roedd materion yn ymwneud â gofal iechyd yn parhau i fod yn achos arwyddocaol o geisiadau i'r Bwrdd. Fodd bynnag, cafodd y mwyafrif eu datrys yn gyflym gydag esboniadau o ble roedd pobl yn y gadwyn atgyfeirio, a beth y gallent ei ddisgwyl. Parhaodd staff gofal iechyd i fod yn gymwynasgar iawn wrth ddatrys materion a gyflwynwyd iddynt gan y Bwrdd.

6.2.6 Roedd gan y tîm gofal iechyd gysylltiadau ardderchog â'r nyrs allgymorth iechyd meddwl a phobl agored i niwed sy'n cael eu cartrefu, a chyda'r meddygon ym meddygfa'r Stryd Fawr, Abertawe lle gallai carcharorion heb gartref sefydlog fod yn bresennol ar ôl eu rhyddhau.

6.2.7 Roedd mynediad hefyd at y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau. Roedd ymweliadau rheolaidd gan arbenigwr iechyd rhywiol.

## 6.3 Iechyd meddwl

6.3.1 Roedd darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd meddwl yn peri pryder mawr. Rhennir y tîm nyrsio iechyd meddwl â charchar y Parc ac roedd mynediad at y gwasanaeth yn gyfyngedig iawn. Roedd y ddarpariaeth gwasanaeth a lefel y gweithlu yn annigonol i ddiwallu anghenion cleientiaid. Nid oedd anghenion unigolion â phroblemau iechyd meddwl cymhleth yn cael eu diwallu.

6.3.2 Roedd gan y carchar hefyd un nyrs iechyd meddwl mewngymorth, a oedd yn darparu'r cyswllt rhwng gwasanaethau seiciatrig a gwasanaethau seiciatrig fforensig i'r rhai yr oedd angen y gwasanaeth hwn arnynt. Trefnwyd presenoldeb seiciatryddion fforensig yn y carchar drwyddynt.

6.3.3 Roedd y nyrs allgymorth iechyd meddwl digartref a phobl agored i niwed sy'n cael eu cartrefu yn eistedd ar Fwrdd Partneriaeth Iechyd y Carchar. Bu staff gofal iechyd yn cysylltu â'r tîm digartrefedd cyn ei ryddhau, gan roi gwybod iddynt am driniaethau a meddyginiaeth y carcharor a ryddhawyd: profwyd bod hwn yn gam cadarnhaol iawn yn y mwyafrif o achosion.

## 6.4 Gofal cymdeithasol

6.4.1 Mae cyflwyniad y tîm diogelu wedi'i groesawu. Roedd y panel diogelu yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Adolygwyd a diwygiwyd polisïau fel y bo'n briodol, trefnwyd hyfforddiant staff, a thrafodwyd cyfeiriadau cyfredol. Ceisiodd y sefydliad sicrhau ei fod yn cynnal cysondeb gofal ar gyfer y rhai a oedd wedi bod yn destun ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol cyfredol. Roedd y panel diogelu'n adolygu'r holl atgyfeiriadau bob chwarter ac roedd atgyfeiriadau'n cael eu holrhain.

6.4.2 Gallai sgrinio yn y dderbynfa dynnu sylw at broblemau ac yna gellid atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd carcharorion hŷn yn cael eu hystyried yn awtomatig ar gyfer eu cyfeirio.

6.4.3 Gallai staff yr adain sefydlu wneud atgyfeiriadau ond roedd y broses yn anodd a gallai fod trwy adroddiad digwyddiad.

6.4.4 Roedd pryderon yn cael eu hadolygu gan goladwyr a'u dadansoddi'n ddyddiol cyn cael eu cyfeirio at yr asiantaeth fwyaf priodol.

6.4.5 Rhoddwyd taflenni diogelu i 297 o staff. Roedd cyswllt ymwybyddiaeth diogelu hefyd gyda darparwr allanol ar gyfer gwybodaeth staff. Roedd hyfforddiant diogelu oedolion a phlant hefyd ar gael ar e-ddysgu, gyda chynlluniau ar gyfer cyflwyniadau i staff. Mae staff gofal iechyd wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol Lefel 1 mewn ymwybyddiaeth o ddiogelu.

## 6.5 Ymarfer corff, trefn

Ers rhoi’r drefn gyfyngedig ar waith ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd carcharorion yn cael dau gyfnod o 45 munud allan o’r gell bob dydd, un yn y bore, ac un yn y prynhawn. Gallai carcharorion ddewis gwneud ymarfer corff cyfyngedig y tu allan yn ystod y cyfnodau hyn. Fodd bynnag, roedd y drefn hon yn golygu bod y rhan fwyaf o garcharorion yn aros yn eu celloedd am 22.5 awr y dydd.

## 6.6 Ailsefydlu cyffuriau ac alcohol

6.6.1 Cynhelid cyfarfodydd yn fisol. Bu saib yn y profion cyffuriau gorfodol (MDT) oherwydd Covid yn ystod y cyfnod adrodd. Hwn oedd yr offeryn mwyaf effeithiol ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau a'r her i leihau camddefnyddio sylweddau. Gostyngwyd y chwilio hefyd.

6.6.2 Mae Narcotics Anonymous (NA) ac Alcoholics Anonymous ill dau yn cael cefnogaeth dda ar draws y carchar, ac mae gan NA restr aros o ddynion sy'n dymuno mynychu. Roedd llenyddiaeth ar y ddau grŵp ar gael yn y dderbynfa ac yn y llyfrgell. Roedd y ddau hefyd yn gallu darparu cymorth i ddynion oedd yn gadael y carchar.

# 7. Cynnydd ac ailsefydlu

## 7.1 Addysg, llyfrgell

7.1.1 Hyd at fis Mawrth 2021, bu llwyddiant cymysg wrth adeiladu ar waith y flwyddyn flaenorol, gyda thargedau cyrhaeddiad wedi'u cyrraedd ac 80% o ddysgwyr yn cyflawni cymhwyster achrededig. Fodd bynnag, nid oedd y nifer lleiaf o ddechreuadau yn cyrraedd y targedau o hyd, ac roedd angen mwy o waith i wella canlyniadau i garcharorion – roedd cyflogadwyedd y dynion yn 32% siomedig, a sgiliau hanfodol yn 57%.

7.1.2 Roedd absenoldebau staff, hyd yn oed cyn Covid, oherwydd absenoldeb mamolaeth, swyddi gwag a secondiadau, yn llesteirio'r ymgyrch i wella'r ddarpariaeth addysg a'r nifer a oedd yn manteisio arno. Roedd diffyg rhifedd a llythrennedd ymhlith carcharorion yn cael ei nodi'n aml yn y cyfnod sefydlu, a oedd yn destun pryder: gyda 980 o 1,352 o ddynion yn y flwyddyn yn cwblhau cyrsiau rhifedd a llythrennedd.

7.1.3 Yn ystod Covid, nid oedd unrhyw ddosbarthiadau ond roedd allgymorth ar yr esgyll, gyda dysgu un-i-un lle bo modd i nifer cyfyngedig o ddynion. Er bod cyfleoedd gwaith ac addysgol yn gyfyngedig iawn, roedd gwell glanhau yn gyfle i fwy o ddynion ddilyn hyfforddiant bioberyglon a chyflawni unedau BICS (Sefydliad Gwyddor Glanhau Prydain).

7.1. Cyn Covid, pan fu'n rhaid i'r llyfrgell gau ar gyfer ymweliadau, roedd y cyfleuster yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan nifer sylweddol o'r dynion gan ei fod yn darparu cyfleusterau addysgol a deunydd darllen hamdden. Roedd yr amgylchedd dymunol mewn carchar a adeiladwyd yn oes Fictoria yn groesawgar ac mae'r staff yn barod i helpu. Yn anffodus, mae Covid wedi cwtogi ar ei wasanaethau ac nid oedd yn ymddangos bod staff na charcharorion yn ymwybodol o'i raglen allgymorth, sef gwasanaeth troli a ddarperir gan fentoriaid.

## 7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

7.2.1 Roedd hyfforddiant galwedigaethol y cwricwlwm ar ddechrau'r flwyddyn adrodd hon yn dangos gwelliant sylweddol gyda chyrsiau megis TGCh, iechyd a diogelwch, codi a chario, diogelwch bwyd a hyfforddiant barista. Fodd bynnag, cawsant eu hatal yn ystod Covid. Y gobaith yw y gall y llwyddiant blaenorol barhau unwaith y codir y cyfyngiadau. Mae aml-sgiliau mewn meysydd fel plymio, paentio ac addurno wedi'u cynllunio ar gyfer ôl-Covid.

7.2.2 Yn ystod Covid, canfu arolygiad fod rheolwyr yn cynnal gwaith ar gyfer tua thraean o boblogaeth y carchardai. Roedd yr ystafell waith gwnïo wedi'i lleoli'n ddefnyddiol i wneud PPE ac roedd eraill yn gweithio yn y ceginau ac yn cynnal lefel uchel o lanweithdra ar yr esgyll, yn y ceginau a'r ardaloedd cawod.

## 7.3 Rheoli troseddwyr, dilyniant

7.3.1 Nid yw'r BMA wedi gallu cyrchu gwybodaeth ystyrlon ar yr agwedd hanfodol hon ar reoli carchardai gan gynnwys cynllunio dedfrydau, adolygiadau, staffio a rhaglenni ymddygiad troseddol. Mae hyn wedi digwydd oherwydd newid mewn

staffio a'r anawsterau a achosir gan Covid, gan atal aelodau'r BMA rhag cysylltu'n bersonol.

7.3.2 Adroddodd ymweliadau craffu HMIP ym mis Awst 2020 nad oedd unrhyw ôl-groniad o asesiadau system asesu troseddwyr (OASys) a bod yr uned rheoli troseddwyr wedi parhau gyda'r rhan fwyaf o agweddau ar ailsefydlu a chynllunio rhyddhau. Nid yw'r BMA wedi gallu cyrchu unrhyw dystiolaeth i ddod i'w gasgliad ei hun.

### 7.4 Cyswllt teuluol

Ers Covid, mae diffyg ffonau yn y celloedd (a oedd ar gael mewn sefydliadau eraill) wedi cyfyngu ar y cyswllt y gallai carcharorion ei gael gyda'u teuluoedd. Dim ond yng nghanol mis Awst y sefydlwyd galwadau fideo cymdeithasol ac ailgyflwynwyd rhai ymweliadau cymdeithasol ganol mis Gorffennaf. Nid oedd plant rhwng wyth mis ac 11 oed yn cael ymweld.

### 7.5 Cynllunio ailsefydlu

7.5.1 Yn yr un modd â rheoli troseddwyr, mae'r BMA wedi cael anhawster cael mynediad at wybodaeth ystyrlon am waith ailsefydlu.

7.5.2 Yn gynharach yn y flwyddyn daethpwyd o hyd i dai brys ar gyfer yr holl garcharorion a oedd yn cael eu rhyddhau, ond ni pharhawyd â hyn ac ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, roedd dynion yn cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned heb lety cynaliadwy, ac mae hynny'n destun gofid.

# Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Y nifer a argymhellir o aelodau'r Bwrdd | 12 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 8 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 7 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad* | 62 |

* Yn cynnwys ymweliadau “rhithwir” pan waherddir ymweliadau gwirioneddol.

**Ceisiadau i'r BMA (gan gynnwys drwy'r llinell ffôn 0800)**

| Cod | Pwnc | Blwyddyn adrodd gyfredol | Blwyddyn adrodd flaenorol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, golchiadau | 4 | 17 |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, Cymhellion a Breintiau a Enillir, sancsiynau | 0 | 4 |
| C | Cydraddoldeb | 0 | 0 |
| D | Gweithgaredd pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, llyfrgell, trefn, amser allan o'r gell | 3 | 7 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd | 0 | 5 |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant | 1 | 4 |
| F | Bwyd a cheginau | 0 | 3 |
| G | Iechyd, gan gynnwys gofal corfforol, meddyliol, cymdeithasol | 4 | 22 |
| H1 | Eiddo o fewn y sefydliad hwn | 4 | 4 |
| H2 | Eiddo yn ystod y trosglwyddiad neu mewn sefydliad neu leoliad arall | 1 | 8 |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au) | 1 | 2 |
| I | Rheoli dedfrydau, gan gynnwys Cyrffyw Cadw yn y Cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio | 2 | 21 |
| J | Pryderon staff/carcharor, gan gynnwys bwlio | 9 | 5 |
| K | Trosglwyddiadau | 0 | 5 |
| L | Amrywiol, gan gynnwys system gwynion | 1 | 3 |
| | Cyfanswm y ceisiadau | 30 | 110 |

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk.